

## Canllawiau: Gwrandawiadau

**Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. Cysylltwch â'r tribiwnlys am fersiwn Saesneg o'r ddogfen hon.**

Efallai y bydd y nodyn canlynol ar reolau mewn perthynas â thystiolaeth a gweithdrefnau sy'n berthnasol i'r gwrandawriad hwn yn ddefnyddiol i chi. Mae'r rheolau hyn yng Ngorchymyn Tribiwnlysoedd Tir Amaethyddol (Rheolau) 2007. OS 2007/3105.

### Pecyn gwrandawriad

- (a) Rhaid i'r ymgeisydd grynhai pecyn gwrandawriad sy'n cynnwys copïau o'r holl ddogfennau perthnasol.
- (b) Rhaid i'r ymatebydd helpu i baratoi'r pecyn.  
Rhaid cytuno ar y cynnwys a rhoi mynegai a rhifau tudalennau.
- (c) Rhaid i'r ymgeisydd ddarparu pedwar copi o'r pecyn i'r Ysgrifennydd ac un copi yr un i bob parti o leiaf 7 diwrnod gwaith cyn dechrau'r gwrandawriad.

### Datganiadau Tystion

- (a) Rhaid i unrhyw barti sydd am ddibynnu ar dystiolaeth unrhyw dyst gyflwyno datganiad gan y tyst hwnnw i'r Ysgrifennydd a darparu copïau o'r datganiad i bob parti o leiaf 10 diwrnod cyn dyddiad y gwrandawriad.
- (b) Rhaid i'r datganiad tyst gynnwys y datganiad "Credaf fod y ffeithiau yn y datganiad tyst hwn yn gywir" ar y diwedd, a bydd wedi'i lofnodi gan y tyst.

### Presenoldeb:

- (a) Pan fyddwch yn derbyn Hysbysiad o Wrandawriad, rhaid i chi hysbysu Ysgrifennydd y Tribiwnlys a ydych yn bwriadu bod yn bresennol yn y gwrandawriad neu gael eich cynrychioli ynddo ai peidio, ac a ydych yn bwriadu galw tystion, gan gynnwys manylion unrhyw ofynion arbennig.
- (b) Fe'ch cynghorir i ddod i'r gwrandawriad fel y gall y Tribiwnlys glywed eich holl sylwadau a thystiolaeth ar bob mater sy'n destun dadl. Dylech gael eich cyngor eich hun ar a ddylech chi ddod i'r gwrandawriad neu gael eich cynrychioli ynddo ai peidio.

- (c) Os nad ydych yn bwriadu dod i'r gwrandawriad neu gael eich cynrychioli, mae gennych chi hawl i gyflwyno i'r Ysgrifennydd a'r partïon eraill sylwadau neu dystiolaeth ysgrifenedig ychwanegol i gefnogi eich achos. Cyn penderfynu ar unrhyw gais neu gwestiwn yn absenoldeb parti, bydd y Tribiwnlys yn ystyried y cais ac unrhyw ymateb, fel y bo'n briodol, ac unrhyw sylwadau neu dystiolaeth ysgrifenedig a ddarparwyd.
- (d) Os na fydd parti'n bresennol neu'n cael ei gynrychioli mewn gwrandawriad, ac os bydd y Tribiwnlys yn fodlon bod y parti wedi'i hysbysu'n briodol am y gwrandawriad ac nad oes unrhyw reswm da dros absenoldeb o'r fath, gall y Tribiwnlys -
  - (i) wrando ar y cais neu'r cwestiwn a gwneud penderfyniad yn absenoldeb y parti; neu
  - (ii) ohirio'r gwrandawriad;a gall roi cyfarwyddyd o'r fath fel sy'n briodol.
- (e) Os na fydd ymgeisydd wedi bod yn bresennol neu gael ei gynrychioli mewn gwrandawriad yr oedd wedi'i hysbysu'n briodol amdano, ac os bydd y Tribiwnlys wedi penderfynu ar y cais, ni all yr ymgeisydd wneud cais ffres i'r Tribiwnlys am iawn ar sail yr un ffeithiau heb ganiatâd ymlaen llaw gan y Tribiwnlys.

### **Gweithdrefn y Gwrandawriad:**

Ar ddechrau unrhyw wrandawriad, bydd y Cadeirydd yn esbonio dull a threfn yr achos, gan roi sylw i unrhyw faich a safon profi a rheolau tystiolaeth perthnasol.

- (a) Yn amodol ar y rheol hon, gall y Tribiwnlys gynnal y gwrandawriad yn y ffordd fwyaf addas i egluro'r materion dan sylw ac i sicrhau bod yr achos yn cael ei drafod mewn ffordd deg; rhaid iddo geisio osgoi ffurfioldeb a hyblygrwydd yn ei achosion, cyhyd ag y bo hynny'n briodol.
- (b) Gall y partïon ddod i'r gwrandawriad a gallant gael eu cynrychioli.
- (c) Gall y partïon gyflwyno tystiolaeth, galw tystion, holi tystion ac annerch y Tribiwnlys ar y dystiolaeth ac ar bwnc y cais yn gyffredinol.
- (d) Ar unrhyw adeg yn yr achos, gall y Tribiwnlys fynnu presenoldeb personol unrhyw un sydd wedi gwneud datganiad tyst neu affidafid, neu unrhyw arbenigwr y mae ei adroddiad wedi'i ffeilio.
- (e) Gall y Tribiwnlys dderbyn tystiolaeth o unrhyw ffaith y creda ei bod yn berthnasol, hyd yn oed pe bai'r dystiolaeth honno'n annerbyniol mewn llys barn ond, yn amodol ar y rheolau mewn perthynas â thystiolaeth arbenigol, ni ddylai'r Tribiwnlys wrthod caniatáu unrhyw dystiolaeth a gyflwynir yn brydlon sy'n dderbyniol yn ôl y gyfraith ac sy'n berthnasol ac angenrheidiol ac nad yw wedi'i chael yn amhriodol.
- (f) Bydd pob penderfyniad a wneir gan y Tribiwnlys yn cael ei gyhoeddi ar bapur ac, oni bai bod y penderfyniad trwy gydsyniad, bydd yn cynnwys datganiad o resymau.

**Tystion Arbenigol:**

- (a) Ni all unrhyw arbenigwr roi tystiolaeth lafar oni bai ei fod eisoes wedi darparu adroddiad ysgrifenedig a bod pob parti wedi cael copi ohono neu fod y Cadeirydd yn nodi fel arall.
- (b) Rhaid i bob arbenigwr ddod i'r gwrandawriad i gael ei groesholi oni bai bod y Cadeirydd yn nodi fel arall.

**Eiriolwyr arbenigol:**

Os ydych chi'n ystyried gofyn i dyst arbenigol fod yn eiriolwr i chi hefyd, dylech ofyn iddo ef neu i gynghorwr cyfreithiol esbonio'r manteision a'r anfanteision o wneud hyn, gan gynnwys y gwahanol wybodaeth, sgiliau a dyletswyddau gofynnol, ac wedyn, i ba raddau y gellid ei ystyried yn arbenigwr annibynnol.

**Dewis iaith**

Mae'r tribiwnlys yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. Mae'r tribiwnlys hefyd yn croesawu galwadau ffôn yn Gymraeg neu'n Saesneg.

Gallwch chi gyflwyno ffurflenni, dogfennau a chyflwyno sylwadau ysgrifenedig i'r tribiwnlys yn Gymraeg neu'n Saesneg.